

# Business Class

## Ysgol Uwchradd Bodedern a Phŵer Niwclear Horizon yn dod ynghyd i gyflwyno'r rhaglen Dosbarth Busnes

#businessclass #dosbarthbusnes

Mae Pŵer Niwclear Horizon yn annog pobl ifanc Ynys Môn i ystyried gyrfa mewn pynciau STEM. Ymunodd y cyflenwr ynni, sydd ar fin adeiladu gorsaf bŵer newydd ar yr ynys, â'r ysgol leol sef Ysgol Uwchradd Bodedern i gyflwyno gweithdy gwyddoniaeth fel rhan o fwy nag 80 o bartneriaethau a grëwyd o dan y rhaglen Dosbarth Busnes yng Nghymru.

Un o raglenni Busnes yn y Gymuned (BITC) yw Dosbarth Busnes, a gyflwynir gan Gyrfa Cymru ac a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Model llwyddiannus yw Dosbarth Busnes sy'n creu partneriaethau cynaliadwy rhwng busnesau ac ysgolion yng Nghymru. Ysgogir y partneriaethau hyn gan anghenion ysgolion a blaenoriaethau, adnoddau a chapasiti busnesau.

Bydd Pŵer Niwclear Horizon yn creu 850 o swyddi parhaol o ansawdd uchel ar ôl i Wylfa Newydd gael ei chwblhau ynghyd a miloedd lawer o gyfleoedd ategol yn y maes adeiladu ac o ran gweithredu'r orsaf. Er mwyn helpu i greu gweithlu'r dyfodol - a thynnu sylw at y cyfleoedd a gaiff eu creu - mae Horizon yn buddsoddi yn y gymuned leol drwy bartneriaeth gydag Ysgol Uwchradd Bodedern, gyda'r nod o annog y disgyblion i ddilyn gyrfaoedd yn y maes Gwyddoniaeth, Technoleg Peirianeg a Mathemateg (STEM). Mae'r cwmni'n bwriadu dechrau recriwtio staff y dyfodol pan fyddant yn ifanc a thra bydd y safle yn cael ei adeiladu er mwyn sicrhau bod gweithlu medrus iawn ar gael pan fydd yr orsaf yn weithredol.

Mae Horizon wedi cefnogi Ysgol Uwchradd Bodedern yn ystod wythnos o brofiad gwaith, gan ddarparu offer dysgu rhyngweithiol i wersi ffiseg, cynnal digwyddiadau her STEM i deuluoedd a noddi sioe wyddoniaeth deithiol yn yr ysgol ar y cyd â Phrifysgol Bangor.

Mae'r bartneriaeth yn helpu myfyrwyr i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth gydol oes a fydd yn eu cefnogi drwy'r ysgol ac i fyd gwaith, a llwyddodd hefyd i annog dau gyn-ddisgybl i ddod yn rhan o gylch cyntaf prentisiaid technegol Horizon.

Meddai Greg Evans, Cyfarwyddwr Gweithredol Horizon: "Rydym yn gwybod bod y rhan fwyaf o weithwyr Wylfa Newydd y dyfodol yn yr ysgol, y coleg neu'r brifysgol ar hyn o bryd ac rydym am greu cyfleoedd iddynt fod yn rhan o'n prosiect yn ystod y cam cynnar hwn.

"Mae'r rhaglen Dosbarth Busnes yn ein galluogi i rannu ein sgiliau a'n harbenigedd gyda disgyblion Ysgol Uwchradd Bodedern er mwyn rhoi'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i ffynnu yn y gweithle ar ôl iddynt adael ysgol, a rhoi'r cyfle i ni hefyd greu gweithlu pwrpasol sydd â'r sgiliau arbenigol y bydd eu hangen arnom gan ein staff ar ôl i'r orsaf bŵer gael ei chwblhau, felly mae'r bartneriaeth o fudd i ni a'r disgyblion sy'n rhan o'r bartneriaeth."

Meddai Graham Bowd, Prif Weithredwr Gyrfa Cymru: "Mae Dosbarth Busnes yn uno diwydiant a phobl ifanc mewn ffordd

ymarferol, fel y dengys y cydweithredu rhagorol hwn. Rydym yn edrych ymlaen at weld sut y bydd y bartneriaeth hon yn ffynnu y flwyddyn nesaf a thu hwnt.

“Mae Dosbarth Busnes yn darparu gwersi gwerthfawr am y byd gwaith y tu allan i'r cwricwlwm ysgol arferol, gan ddysgu myfyrwyr am yr ystod o wahanol gyfleoedd sydd ar gael ar ôl gadael yr ysgol. Yn y bartneriaeth benodol hon, llwyddodd Horizon i ddysgu myfyrwyr Ysgol Uwchradd Bodedern am bwysigrwydd gyrfaedd STEM a fydd yn rhan hanfodol o baratoi'r genhedlaeth nesaf o weithlu Cymru.”

Ychwanegodd Matt Appleby, cyfarwyddwr Busnes yn y Gymuned Cymru: “Prif nod Dosbarth Busnes yw creu Partneriaethau a digwyddiadau gyda phrif gyflogwyr Cymru megis Horizon. Mae'n rhoi cyfle i ddisgyblion rymgweithio â chwmnïau a gofyn cwestiynau am eu cyfleoedd gyrfa yn y dyfodol.

“Mae annog cwmnïau i ymgysylltu â phobl ifanc nid yn unig yn dangos eu hymrwymiad i'w darpar staff ond hefyd yn helpu i roi sgiliau gydol oes i fyfyrwyr megis gwaith tîm, paratoi am gyfweiliad a gwybodaeth ymarferol ar gyfer eu gyrfa yn y dyfodol.”

Gwasanaeth ledled Cymru yw Gyrfa Cymru sy'n cynnig cyngor, argymhellion a chanllawiau gyrfa am ddim i bobl o bob oedran sy'n chwilio am waith amser llawn neu ran amser, cynllun gwaith, prentisiaeth neu gael profiad gwaith i ddatblygu eu sgiliau a rhagolygon swyddi.

Mae Gyrfa Cymru yn rhoi cyngor yn Gymraeg a Saesneg ac i gael gwybodaeth bellach a defnyddio ei wasanaeth, gallwch chwilio ar-lein am [www.gyrfacymru.com](http://www.gyrfacymru.com) neu ei ddilyn ar Trydar @GyrfaCymru neu ar Facebook dan [www.facebook.com/gyrfacymru](http://www.facebook.com/gyrfacymru).

## DIWEDD

### Nodiadau i olygyddion:

- Career Choices Dewis Gyrf (CCDG) yw'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaedd dwyieithog proffesiynol a diduedd ar gyfer pobl o bob oed yng Nghymru. Mae CCDG yn darparu gwasanaethau o dan frand Gyrf Cymru ac mae wedi bod yn is-gwmni ym mherchnogaeth lwyf Llywodraeth Cymru ers 1 Ebrill 2013.
- Mae Gyrf Cymru yn un o brif bartneriaid cyflawni Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cefnogaeth i bobl ifanc er mwyn symud ymlaen mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.
- I gael mwy o wybodaeth am wasanaethau Gyrf Cymru ewch i [www.gyrfacymru.com](http://www.gyrfacymru.com)

### Dosbarth Busnes

- Am fanylion pellach cysylltwch â Lowri ap Robert ar 029 2078 0050.
- Mae Dosbarth Busnes yn fodel llwyddiannus sy'n adeiladu partneriaethau hirdymor cynaliadwy a strategol rhwng busnesau ac ysgolion uwchradd. Ar hyn o bryd mae dros 1,000 o fusnesau yn cefnogi 500 o bartneriaethau a miloedd o bobl ifanc ledled y DU.
- Mae partneriaethau Dosbarth Busnes yn cydweithio drwy'r dull "clwstwr" unigryw sy'n ffordd effeithiol o rwydweithio, datblygu a rhannu syniadau a chyrraedd nodau cyffredin.
- Yn 2015/16 y nod yw creu 60 o bartneriaethau ledled Cymru.

